
# D-Day a Brwydr Normandi



© TOPFOTO

## Yn gynnar ar 6ed Mehefin 1944 oddi ar arfordir Ffrainc a oedd wedi'i feddiannu gan yr Almaenwyr, gorweddai armada o dros 7,000 o longau llyngesol.

Uwch eu pennau yn yr awyr y diwrnod hwnnw byddai miloedd o awyrennau yn pasio ar fwy na 14,000 o gyrchoedd, yn bomio targedau ac yn gollwng neu'n glanio rhyw 24,000 o bersonél o'r awyr y tu ôl i linellau'r gelyn. Eu cenhadaeth: cipio pontydd, niwtraleiddio magnelfeydd arfordirol a diogelu ffyrdd hanfodol o flaen y prif laniadau.

Yn fuan ar ôl gwawrio, ac o dan orchudd bombardiad llyngesol anferth, anelodd tonnau cyntaf y gwŷr traed ymosodol at bum traeth dynodedig, dan ffug enw Sword, Juno, Gold, Omaha ac Utah, ar hyd 50 milltir o arfordir Normandi. Mewn sawl lle, roedd yr amddiffynwyr yn aros, gan weithredu niwed aruthrol ar y cynghreiriaid wrth iddynt ddod i'r lan. Ond, ar ôl blynyddoedd o gynllunio gofalus a gyda phenderfyniad mawr, aethant ymlaen â'r frwydr. Yn y pendraw, llwyddwyd i dorri 'Atlantic Wall' enwog Hitler ac ennill cadernle yng 'Nghadarnle Ewrop'.

**Fel eiriolwr Coffau, mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn talu teyrnged i Genhedlaeth D-Day trwy adrodd eu straeon. Sganiwch y cod QR i ddysgu mwy:**



© IWM (IMPERIAL WAR MUSEUM)

Erbyn diwedd y diwrnod cyntaf hwnnw, daeth dros 130,000 o bersonél yn cynrychioli 13 cenedl i'r lan, wedi'u huno yn eu nod o ryddhau gorllewin Ewrop. Daeth y llwyddiant hwn ar gost aruthrol. Ary cyfan, dioddefodd y cynghreiriaid 10,000 o anafiadau yn yr awyr, ar y môr ac ar draethau Normandi ar 6ed Mehefin yn unig; gyda 4,400 y gwneud yr aberth eithaf.

Ond dim ond y dechrau oedd D-Day. Yn ystod tri mis nesaf 'Ymgyrch Overlord', byddai'r brwydro yn ymledu'n wyllt yn nhrefi, pentrefi a chloddiau anfad Gogledd Ffrainc, wrth i'r cynghreiriaid orfodi'r Almaenwyr trwy Normandi, a thu hwnt yn y pendraw. Roedd yn frwydr dros ryddid a fyddai'n cynnwys mwy na dwy filiwn o bersonél y cynghreiriaid, y byddai 10 y cant ohonynt yn cael eu hanafu gyda 72,000 yn gwneud yr aberth eithaf. Roedd Brwydr Normandi, a gafodd ei brwydro'n galed ac a fu'n gostus, yn fuddugoliaeth a drodd y fantol i ddod â diwedd i'r Ail Ryfel Byd yn Ewrop.

ROYAL BRITISH LEGION

Registered charity number: 219279